Medrwn Môn

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

7. Dod o hyd i arian a'i gael

7.4.1 Grantiau bach

Trosolwg

Mae'r daflen wybodaeth hon yn cynnig manylion am grantiau bach, h.y. symiau o hyd at ryw £15,000, sydd ar gael i grwpiau a mudiadau bach yn y sector gwirfoddol yng Nghymru. Mae'r manylion sydd yn y daflen hon yn cynnig canllaw cyffredinol. Bydd y cysylltwyr sydd wedi'u nodi'n gallu rhoi gwybodaeth fwy manwl i chi.

Sefydliad Allen Lane

Mae'r Sefydliad yn darparu grantiau i fudiadau gwirfoddol di-elw yn y DU. Yn gyffredinol, mae'r Sefydliad yn dymuno ariannu gwaith a wnaiff wahaniaeth parhaol i fywydau pobl yn hytrach na dim ond lliniaru symptomau neu broblemau dros dro, yn ogystal â phrosiectau sy'n ceisio lleihau arwahanrwydd, stigma a gwahaniaethu ac sy'n hybu neu'n galluogi grwpiau amhoblogaidd i gymryd rhan ym mywyd y gymuned gyfan. Ceir defnyddio grantiau ar gyfer costau cychwyn, costau craidd neu gostau prosiectau ac maent fel arfer rhwng £500 a £15,000.

Mae'r Sefydliad yn rhoi grantiau i fudiadau y mae eu Hymddiriedolwyr yn credu bod eu gwaith yn amhoblogaidd, e.e. gwaith gyda ffoaduriaid a cheiswyr lloches; pobl dduon a chymunedau lleiafrifol ethnig; grwpiau lesbiaidd, hoyw a deurywiol; rhai sy'n profi problemau iechyd meddwl, trais neu gamdriniaeth; troseddwyr a chyn-droseddwyr, teithwyr a phobl hŷn.

Manylion cysylltu:
Allen Lane Foundation, 90 The Mount, Caerefrog, YO24 1AR
Ffôn: 01904 613 223
enquiries@allenlane.org.uk
www.allenlane.org.uk

Cronfa Archesgob Cymru er budd Plant

Mae'r Gronfa hon, a weinyddir gan yr Eglwys yng Nghymru, yn cynorthwyo plant mewn angen a'u teuluoedd a chymunedau lleol drwy waith mudiadau lleol.

Sefydlwyd Cronfa Archesgob Cymru er budd Plant yn 2001 yn sgîl penderfyniad Cymdeithas y Plant i derfynu ei holl weithgarwch yng Nghymru.

Nodau ac Amcanion

Pwrpas y gronfa yw helpu plant mewn angen a'u teuluoedd a chymunedau lleol, drwy waith mudiadau yn y drefn flaenoriaeth hon:

- Rhai yn Esgobaethau'r Eglwys yng Nghymru
- Rhai sy'n gysylltiedig â chyrff Cristnogol eraill sy'n aelodau o Cytûn (Eglwysi ynghyd yng Nghymru)
- Mudiadau eraill sy'n gweithio gyda phlant yng Nghymru.

Manylion cysylltu:
Cronfa Archesgob Cymru er budd Plant,
Yr Eglwys yng Nghymru,
39 Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd
CF11 9XF
Ffôn: 029 20 34 8254
awfc@churchinwales.org.uk
www.churchinwales.org.uk/awffc

Cronfa Elusennol Baily Thomas

Sefydlwyd yr elusen gofrestredig hon yn bennaf i hybu ymchwil ym maes anabledd dysgu a gofal a chysur i'r rhai y mae anableddau dysgu'n effeithio arnynt. Rhoddir £1 filiwn ar ffurf grantiau o £250 a mwy. Dim ond ceisiadau gan fudiadau gwirfoddol sy'n elusennau cofrestredig neu'n gysylltiedig ag elusen gofrestredig neu gan ysgolion neu gymdeithasau rhieni ac athrawon a ystyrir. Dylid cyflwyno ceisiadau erbyn 1 Mai neu 1 Hydref.

Manylion cysylltu:
c/o TMF Management UK Limited, 410 Capability Green, Luton LU1 3AE
Ffôn: 01582 439225
info@bailythomas.org.uk

Barclays ccc

Mae Barclays wedi ymrwymo i chwarae rhan arweiniol yn y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu. Buddsoddodd gyfanswm o £52.2 miliwn mewn cymunedau yn 2008. Mae'r cymorth y mae Barclays yn ei roi drwy nawdd a rhoddion, yn genedlaethol ac yn lleol, yn canolbwyntio ar addysg, yr amgylchedd, pobl sydd ag anableddau, y celfyddydau a phrosiectau cynhwysiant cymdeithasol.

Manylion cysylltu:
Tîm Cymunedol Cymru, Ail Lawr,
Windsor Court, 3 Windsor Place,
Caerdydd CF10 3BT
Ffôn: 029 20 42 6750
jean.king@barclays.co.uk
www.barclays.com

Sefydliad Elusennol Bernard Sunley

Mae'r Sefydliad yn rhoi grantiau i rai mewn amryw o gategorïau gan gynnwys: addysg; ieuenctid; y gymuned; yr amgylchedd/cadwraeth; iechyd a lles. Fel arfer, rhoddir grantiau sydd rhwng £200 a £5,000. Rhoddir grantiau i elusennau cofrestredig yn unig, gan gynnwys ysgolion yn y DU. Nid oes ffurflen gais – dylid cyflwyno pob cais ar ffurf llythyr esboniadol i'r Cyfarwyddwr.

Manylion cysylltu:
Bernard Sunley Charitable Foundation,
20 Berkley Square, Llundain W1J 6LH
Ffôn: 020 7408 2198
Ffacs: 020 7499 5859
asstdirbsunleycharfund@ukgateway.net

Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo

Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo (CRT) yw'r brif asiantaeth adfywio yn y DU sydd wedi ymrwymo i adfywio cymdeithasol ac economaidd yng nghymunedau meysydd glo Prydain. Mae'r Ymddiriedolaeth yn rhoi grantiau ar gyfer holl feysydd glo Prydain. Ers lansio'r Ymddiriedolaeth yn 1999, mae wedi dyfarnu cyfanswm o tua £8.5 miliwn o grantiau i 500 o grwpiau yng Nghymru.

Yng Nghymru, mae'r Ymddiriedolaeth wedi'i hariannu Lywodraeth y Cynulliad ac mae'n cynnig rhaglen o brif grantiau a grantiau bach. Enw'r rhaglen grantiau bach yw 'Pontio'r Bwlch' ac mae ganddi broses llwybr carlam sy'n targedu grwpiau gwirfoddol a chymunedol bach. Gellir gwneud cais am grantiau bach sydd rhwng £500 a £10,000 a phrif grantiau o hyd at £100,000. Bydd Pwyllgor Grantiau Cymru'r Ymddiriedolaeth, sydd newydd ei sefydlu, yn ystyried ceisiadau am gyllid refeniw a chyfalaf.

Bydd yr Ymddiriedolaeth yn helpu prosiectau sy'n berthnasol i un neu ragor o'r themâu ar gyfer ariannu, sef cefnogi cymunedau, cymunedau sy'n dysgu, cymunedau sy'n mentro, a helpu pobl i gael gwaith. I gael yr holl fanylion am y rhaglen ac am gymhwysedd cysylltwch â Swyddfa Cymru.

Manylion cysylltu:
Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo, Maritime Office, Woodland Terrace, Maes-y-coed, Pontypridd, Rhondda Cynon Taf CF37 1DZ
Ffôn: 01443 404455
alun.taylor@coalfields-regen.org.uk

Ymddiriedolaeth Dulverton

Mae gwaith yr Ymddiriedolaeth yn ymwneud yn bennaf â meysydd ieuenctid ac addysg, lles cyffredinol, cadwraeth, crefydd, gwaith cadwrol, heddwch a diogelwch ac Affrica, yn ogystal ag amryw o achosion eraill ar lefel genedlaethol. Er hynny, mae nifer o grantiau bach o hyd at £2,500 sydd ar gael ar gyfer prosiectau lleol a chymunedol ledled y DU. Mae grantiau mawr i ddibenion cenedlaethol neu ranbarthol yn amrywio rhwng £5,000 a £25,000. Derbynnir ceisiadau oddi wrth elusennau sydd wedi'u cofrestru yn y DU yn unig, a disgwylir iddynt ddangos pa ffynonellau ariannol eraill y maent wedi ymgeisio ar eu cyfer a'u sicrhau.

Ni fydd yr Ymddiriedolaeth yn ariannu meysydd cyffredinol iechyd a meddygaeth (gan gynnwys caethiwed i alcohol a chyffuriau), prosiectau sy'n ymwneud ag amgueddfeydd a chanolfannau arddangos, eglwysi penodol, holl feysydd y celfyddydau, chwaraeon, ysgolion penodol, teithiau ymchwil na phrosiectau ymchwil. Ni fydd yr Ymddiriedolaeth fel arfer yn darparu cyllid ar gyfer cyflogau ac apelau cymynrodd. Anogir ymgeiswyr i gysylltu â staff yr Ymddiriedolaeth i sicrhau eu bod yn gymwys cyn cyflwyno cais.

Manylion cysylltu:
Trust Director, The Dulverton Trust,
5 St. James Place, Llundain SW1A 1NP
Ffôn: 020 7629 9121
Ffacs: 020 7495 6201
trust@dulverton.org
www.dulverton.org

Sefydliad Esmée Fairbairn

Esmée Fairbairn yw un o'r sefydliadau annibynnol mwyaf sy'n rhoi grantiau yn y DU. Mae'r Sefydliad yn rhoi grantiau i fudiadau sy'n ceisio gwella ansawdd bywyd pobl a chymunedau yn y DU, yn awr ac yn y dyfodol. Rhoddir grantiau o fewn ddau llwybr:

- Prif gronfa
- Meysydd

Mae'r Sefydliad yn gwahodd ceisiadau gan elusennau cofrestredig neu grwpiau gyda dibenion elusennol. Nid oes dyddiadau cau ar gyfer ymgeisio.

Manylion cysylltu:
Esmée Fairbairn Foundation,
11 Park Place, Llundain SW1A 1LP
Ffôn: 020 7297 4700
Ffacs: 020 7297 4701
info@esmeefairbairn.org.uk
www.esmeefairbairn.org.uk

Amgylchedd Cymru

Mae Amgylchedd Cymru, sy'n cael ei hariannu gan Lywodraeth y Cynulliad, yn bartneriaeth o fudiadau amgylcheddol yn y sector gwirfoddol. Ei nod yw cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy drwy hybu a chefnogi gwaith gwirfoddol i ddiogelu a gwella'r amgylchedd yng Nghymru. Mae pum cronfa ar gyfer grantiau, a gall pob un dalu hyd at 75% o gostau'r prosiect a thelir y gweddill o ffynonellau heblaw Llywodraeth ganolog.

Grantiau rheoli: Mae'r gronfa hon yn rhoi cymorth ar gyfer swyddi newydd nad ydynt yn rhan o weithgareddau craidd y mudiad. Mae'r grantiau'n amrywio rhwng £1,000 a £11,000. Rhaid i'r ceisiadau ddod i law erbyn dechrau Tachwedd ar gyfer grantiau sy'n dechrau ar 1 Ebrill y flwyddyn ganlynol. Gellir darparu cyllid am hyd at chwe blynedd.

Grantiau prosiectau: Mae'r grantiau hyn ar gyfer darparu deunyddiau'n unig mewn prosiectau datblygu cynaliadwy *cofrestredig*, lle mae gwirfoddolwyr yn cymryd rhan. £5,000 yw maint y grantiau ar gyfartaledd. Mae eitemau cyfalaf yn gyfyngedig i £800. Gellir ymgeisio ar unrhyw adeg o'r flwyddyn, ond bydd yr arian wedi'i ddyrannu fel arfer erbyn mis Hydref.
Grantiau cyn prosiect: Mae'r rhain ar gyfer astudiaethau dichonoldeb, cynlluniau busnes a gwerthusiadau cymunedol lle cynhelir astudiaethau gan drydydd parti. Mae'r grantiau'n amrywio rhwng £500 a £5,000.

Grantiau cychwyn: Mae'r rhain yn talu am y costau sy'n gysylltiedig â sefydlu grwpiau gwirfoddol neu gymunedol newydd, gan gynnwys llogi ystafelloedd cyfarfod, cyfleusterau a chyfarpar, prynu eitemau bach o gyfarpar, costau cyhoeddusrwydd ac argraffu, hyfforddiant, yswiriant, etc. Gellir ymgeisio am grantiau o hyd at £1,000.

Grantiau cymorth hyfforddiant: Mae grantiau ar gael i dalu costau cyrsiau a chynadleddau (sydd wedi'u trefnu gan drydydd parti) i staff a gwirfoddolwyr mewn mudiadau *cofrestredig.* Darperir ar gyfer costau teithio, cynhaliaeth a ffioedd cyrsiau .

Manylion cysylltu:
Amgylchedd Cymru, Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FH
Ffôn: 029 20 431727
info@environment-wales.org
www.environment-wales.org

Sefydliad Calouste Gulbenkian

Mae blaenoriaethau presennol y Sefydliad yn perthyn i bedwar prif gategori: y celfyddydau; addysg; lles cymdeithasol a chysylltiadau diwylliannol Eingl-Bortiwgalaidd. Cynghorir ymgeiswyr i gysylltu â'r Sefydliad i gael gwybodaeth am flaenoriaethau penodol dan y categorïau hynny. Mae'r Sefydliad yn rhoi grantiau, hyd at derfyn tybiannol o £15,000 yn unig ar gyfer cynigion elusennol, gan fudiadau fel arfer, a ddylai fod yn elusennau cofrestredig fel rheol neu'n rhai sydd wedi'u heithrio rhag treth. Rhaid i'r mudiadau fod wedi'u lleoli yn y DU neu Weriniaeth Iwerddon ac mae

croeso arbennig i geisiadau da o leoedd y tu allan i Lundain.

Manylion cysylltu:
Calouste Gulbenkian Foundation (UK Branch), 98 Portland Place, Llundain W1B 1ET
Ffôn: 020 7636 5313
Ffacs: 020 7908 7580
info@gulbenkian.org.uk
www.gulbenkian.org.uk

Sefydliad Paul Hamlyn

Dyma un o'r sefydliadau mwyaf sy'n rhoi grantiau yn y DU. Mae'n canolbwyntio ar waith i hybu prosiectau addysg a'r celfyddydau sy'n ceisio amlhau'r cyfleoedd i unigolion brofi ansawdd bywyd cyflawn yn awr ac yn y dyfodol, yn enwedig mewn cysylltiad â phlant, pobl ifanc ac eraill sydd dan anfantais. Mae'r Rhaglen Grantiau bach yn rhoi symiau o £5,000 ar y mwyaf i gynorthwyo cynlluniau a mentrau lleol yn ei brif feysydd diddordeb. Derbynnir ceisiadau gan elusennau bach cofrestredig, ysgolion a grwpiau yn y DU sydd â dibenion elusennol a rhoddir cyllid am flwyddyn yn unig fel arfer.

Manylion cysylltu:
Paul Hamlyn Foundation, 18 Queen Anne's Gate, Llundain SW1H 9AA
Ffôn: 020 7227 3500
Ffacs: 020 7222 0601
information@phf.org.uk
www.phf.org.uk

Ymddiriedolaeth Elusennol Laing

Mae'r Ymddiriedolaeth yn darparu cymorth ar gyfer amrywiaeth eang o weithgareddau. Y gweithgareddau y mae'r Ymddiriedolaeth yn eu hybu ar hyn o bryd yw prosiectau sy'n ymwneud â digartrefedd, pobl ifanc dan anfantais, addysg a'r amgylchedd. Rhoddir bron i 1,000 o grantiau bob blwyddyn ac mae'r rhan fwyaf yn symiau o lai na £1,000. Dylid gwneud cais ar ffurf llythyr sy'n disgrifio'r prosiect arfaethedig a gellir ei gyflwyno ar unrhyw adeg cyn i'r prosiect ddechrau.

Manylion cysylltu:
Laing's Family Trusts, 33 Bunns Lane, Mill Hill, Llundain, NW7 2DX
Ffôn: 020 8238 8890
Ffacs: 020 8238 8897

Sefydliad Lankelly Chase

Mae'r Sefydliad yn hybu gwaith elusennau cofrestredig ledled Prydain Fawr, heblaw ardal Llundain Fwyaf. Ei flaenoriaethau yw'r celfyddydau, treftadaeth, 'torri'r cylch', datblygu cymunedau, meddyliau rhydd a thawel, troseddwyr a chymdeithas ac, am gyfnod cyfyngedig penodol, ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Mae'n cefnogi mentrau cymunedol sy'n diwallu anghenion lleol, yn enwedig elusennau bach sydd â chylch gwaith lleol neu ranbarthol yn unig. Mae'n cydnabod bod anghenion penodol gan grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig ac felly mae'n croesawu ceisiadau gan fudiadau o'r fath. Mae'r grantiau'n amrywio rhwng £1,000 a £40,000.

Manylion cysylltu:
2 The Court, High Street, Harwell, Didcot, Oxon OX11 0EY
Ffôn: 01235 820 044
www.lankellychase.org.uk

Sefydliad Lloyds TSB i Gymru a Lloegr

Sefydliad Lloyds TSB yw un o'r cyrff annibynnol mwyaf sy'n ariannu'r sector gwirfoddol yng Nghymru. Mae'n ceisio cyrraedd mudiadau ar lawr gwlad ledled Cymru. Dosbarthwyd tua £2 miliwn i elusennau ledled Cymru yn 2007, a swm cyfartalog y grantiau oedd £14,500. Rhoddir grantiau i elusennau lleol a rhanbarthol gyda incwm o dan £1miliwn. Cenhadaeth y Sefydliad yw cynorthwyo a gweithio mewn partneriaeth â elusennau cydnabyddedig sy'n helpu pobl sydd dan anfantais i chwarae rhan lawnach yn y gymuned.

Manylion cysylltu:

Canolbarth a De Cymru – Blaenau Gwent, Pen y Bont ar Ogwr, Caerffili, Caerdydd, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Merthyr Tydful, Sir Fynwy, Castell nedd a Phort Talbot, Casnewydd, Sir Benfro, Powys, Rhondda Cynon Taf, Abertawe, Torfaen, Bro Morgannwg.

Mike Lewis
Rheolwr Grantiau y Canolbarth a De Cymru,
Pentagon House, 52-54 Southwark Street, Llundain, SE1 1UN
EC3R 8WQ
Ffôn: 07802 540793
Ffacs: 0870 4111224
mid&southwales@lloydstsbfoundations.org.uk
www.lloydstsbfoundations.org.uk

Gogledd Cymru - Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Ynys Môn, Wrecsam.

Cerys Thomas Rhelowr Grantiau, Gogledd Cymru
Pentagon House, 52-54 Southwark Street, Llundain, SE1 1UN
Ffôn: 0750 0787749
Ffacs: 0870 4111224
northwales@lloydstsbfoundations.org.uk
www.lloydstsbfoundations.org.uk

Ymddiriedolaeth Manifold

Mae'r Ymddiriedolaeth yn rhoi cymorth i gadw gweithgareddau ac adeiladau sydd o bwys diwylliannol. Rhai o'r meysydd lle rhoddir cymorth yw: eglwysi; addysg a'r celfyddydau; yr amgylchedd ac achosion cymdeithasol. Mae'r rhan fwyaf o'r grantiau rhwng £500 a £5,000 ond rhoddir grantiau mwy hefyd. Dim ond elusennau cofrestredig a gaiff ymgeisio. Dylid gwneud ymholiadau cyffredinol a cheisiadau am grantiau drwy lythyr yn unig.

Manylion cysylltu:
The Manifold Trust, Shottesbrooke House, Maidenhead SL6 3SW
Ffacs: 01628 820159

Sefydliad Rank

Mae'r Sefydliad yn canolbwyntio'n llwyr ar hybu a datblygu arweinyddiaeth ymysg pobl ifanc, cefnogi pobl ifanc sydd dan anfantais a rhai sy'n eiddil neu'n unig oherwydd henaint neu anabledd, a hyrwyddo egwyddorion Cristnogol drwy ffilm a chyfryngau eraill. Er hynny, mae'r Sefydliad yn rhedeg rhaglen grantiau bach ar gyfer apelau na ofynnwyd amdanynt. Dylid cyfeirio apelau cyffredinol, gan gynnwys rhai na ofynnwyd amdanynt sy'n gysylltiedig â phrosiectau ieuenctid, addysg a gofal cymunedol i'r swyddfa yn Leamington Spa. Gellir cael gwybodaeth am

brosiectau ieuenctid a gychwynnwyd gan y Sefydliad ei hun gan y swyddfa yn Llundain.

Manylion cysylltu:

Jan Carter
The Rank Foundation
12 Warwick Square
London, SW1V 2AA
Tel: 02079 636811
jan.carter@rankfoundation.com

Ymddiriedolaeth Elusennol Syr Jules Thorn

Ymchwil feddygol yw prif faes yr elusen hon ac mae'n dyfarnu grantiau i brifysgolion ac ysbytai yn y DU. Er hynny, mae ei Rhaglen Rhoddion Llai yn agored i apelau gan elusennau cofrestredig sy'n rhoi cysur i bobl sâl neu anabl a grwpiau eraill sydd dan anfantais. Mae'r rhan fwyaf o'r grantiau rhwng £100 a £750.

Manylion cysylltu:
The Sir Jules Thorn Charitable Trust, 24 Manchester Square, Llundain, W1U 3TH
Ffôn: 020 7487 5831
Ffacs: 020 7224 3976
info@julesthrontrust.org.uk
www.julesthorntrust.org.uk

Sefydliad Garfield Weston

Yn y cylchoedd ariannu diweddar, rhoddwyd cymorth i brosiectau yn y categorïau canlynol: y celfyddydau, y gymuned, addysg, lles, meddygaeth, cymdeithas, crefydd, ieuenctid a'r amgylchedd. Yn 2007 rhoddodd y Sefydliad gymorth i 1,982 o fudiadau drwy grantiau gwerth £41.7 miliwn. Rhaid i ymgeiswyr fod yn elusennau cofrestredig neu'n rhai sy'n gallu derbyn tâl drwy elusen leol. Ni ystyrir ceisiadau gan unigolion. Nid oes dyddiad cau ar gyfer ceisiadau.

Manylion cysylltu:
The Garfield Weston Foundation, Weston Centre, 10 Grosvenor Street, Llundain, W1K 4QY
Ffôn: 020 7399 6565
Ffacs: 020 7399 6580
www.garfieldweston.org

Ymddiriedolaeth Elusennol Yapp

Mae'r Ymddiriedolaeth yn rhoi grantiau i elusennau bach ledled y DU am amryw fathau o waith. Nifer bach iawn o geisiadau a gaiff yr ymddiriedolwyr o Gymru ar hyn o bryd a byddent yn hoffi cyrraedd mwy o elusennau bach yng Nghymru. Mae'r Ymddiriedolaeth yn ariannu gwaith mewn categorïau fel: pobl oedrannus; plant a phobl ifanc; pobl sydd ag anableddau neu broblemau iechyd meddwl; rhai sy'n ceisio trechu anawsterau fel caethiwed i sylweddau, camdriniaeth, problemau o ran perthnasoedd, hanes o droseddu; a dysgu gydol oes. Rhaid i ymgeiswyr fod yn elusennau cofrestredig sydd â chyfansoddiad ac a fu'n gweithredu ers tair blynedd o leiaf, ac sydd â throsiant arferol o lai na £60,000 y flwyddyn. Ni roddir grantiau ar gyfer gwariant cyfalaf. Rhoddir blaenoriaeth wrth ddyfarnu grantiau parhaus i geisiadau gan elusennau bach iawn.

Manylion cysylltu:
The Yapp Charitable Trust, 47A Paris Road, Scholes, Holmfirth, HD9 1SY
Ffôn: 01484 683 403
info@yappcharitabletrust.org.uk
www.yappcharitabletrust.org.uk

Cynlluniau Grant Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA)

Mae aelodau WCVA yn cael gwybodaeth am ffynonellau ariannu fel rhan o'r e-friffio bob pythefnos, neu drwy gymryd e-aelodaeth o'r WCVA am ddim cewch y bwletin misol am ffynonellau ariannu. Ceir gwybodaeth am ariannu hefyd yn e-fwletin CFSN, y bydd WCVA yn ei gylchredeg yn fisol ar ran CFSN.

Cronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf

Mae Cymunedau yn Gyntaf yn rhaglen adfywio o eiddo Llywodraeth y Cynulliad sy'n targedu'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae'r Gronfa Ymddiriedolaeth yn darparu grantiau bach ar gyfer grwpiau yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf am unrhyw fath o weithgarwch sy'n cynnwys pobl leol drwy fudiadau dan arweiniad y gymuned. Gweinyddir y gronfa gan WCVA ac mae'n ceisio hybu gweithgareddau sydd o fudd economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol neu ddiwylliannol i bobl.

Manylion cysylltu:
CYCG
Ffôn: 0800 587 8898
help@wcva.org.uk
www.wcva.org.uk

Y Gronfa Fuddsoddi Gymunedol

Fel rhan o RhCCG, lansiwyd y Gronfa Fuddsoddi Gymunedol gan WCVA drwy gydweithio â'r prosiectau sy'n bartneriaid iddo, Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru a Chanolfan Cydweithredol Cymru, i wneud buddsoddiadau tymor hir drwy becynnau ariannu ar ffurf benthyciadau hyblyg. Ategir hynny drwy gymorth ar ffurf grant datblygu er mwyn helpu mudiadau i baratoi ar gyfer derbyn benthyciadau.

Bydd y Gronfa'n helpu i feithrin cynaliadwyedd mentrau cymdeithasol a mudiadau gwirfoddol yn y gymuned mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yn rhanbarth Amcan 1 nad ydynt yn gallu codi digon o arian o ffynonellau mwy confensiynol. Mae hon yn elfen allweddol yn rhaglen Llywodraeth y Cynulliad i ddelio ag allgáu cymdeithasol, ac fe'i cyflawnir drwy helpu i ddatblygu gallu mewn busnes er mwyn creu incwm, drwy godi lefelau sgiliau busnes er mwyn trafod asedau'n llwyddiannus, a thrwy hybu'r gwaith o redeg gweithrediadau busnes o ansawdd da.

Manylion cysylltu:
Llinell gymorth WCVA
Ffôn: 0800 2888 329
help@wcva.org.uk
www.wcva.org.uk

Gwirfoddolwyr y Mileniwm

Mae Gwirfoddolwyr y Mileniwm yn rhaglen ar gyfer y DU gyfan i bobl ifanc sy'n gwirfoddoli neu'n awyddus i wneud hynny. Pwrpas y rhaglen yw hyrwyddo a chydnabod ymrwymiad parhaus gan bobl ifanc 16-24 oed i weithgarwch

gwirfoddol sy'n cael effaith bendant ar y gymuned.

Rheolir y rhaglen yng Nghymru gan Banel Cynghori Gwirfoddolwyr y Mileniwm, partneriaeth rhwng WCVA a Chyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol.

Gellir gwneud cais am symiau rhwng £50 a £7,000 i dalu costau gwirfoddolwyr.

Nid oes cyfyngiad ar nifer y ceisiadau y gellir eu gwneud. Gellir cymeradwyo ceisiadau gan brosiectau sydd dan arweiniad pobl ifanc yn gyflym iawn drwy system garlam. Bydd y panel cynghori'n cwrdd bedair gwaith y flwyddyn.

Manylion cysylltu:
Desg gymorth WCVA
Ffôn: 0800 2888 329
help@wcva.org.uk
www.wcva.org.uk

Cronfa Gwirfoddoli yng Nghymru

Mae Cronfa Gwirfoddoli yng Nghymru yn cynorthwyo prosiectau y cyflawnir eu nodau gan wirfoddolwyr yn bennaf; sy'n recriwtio ac yn lleoli gwirfoddolwyr; sy'n datblygu arferion da ym maes gwirfoddoli; neu'n hyrwyddo gweithgareddau mewn ardaloedd lle na cheir llawer o wirfoddoli ar hyn o bryd.

Mae unrhyw fudiad gwirfoddol sydd â chyfansoddiad sy'n gweithio neu'n bwriadu gweithio yng Nghymru yn gymwys i ymgeisio. Mae grantiau o hyd at £25,000 ar gael yn y flwyddyn gyntaf, ac mae cyfle i ymgeisio am gyllid o £12,500 yn yr ail flwyddyn a £6,250 yn y drydedd.

Manylion cysylltu:
Desg gymorth WCVA
Ffôn: 0800 2888 329
help@wcva.org.uk
www.wcva.org.uk

Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Amcan Cynllun Prif Grantiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg yw cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Gall y Bwrdd ddosbarthu grantiau i hybu gweithgareddau sy'n ceisio cyflawni'r amcan hwn. Mae grantiau ar gael i hyrwyddo gweithgareddau mudiadau os yw hyrwyddo a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn rhan annatod a chanolog o'u cyfansoddiad. Caiff mudiadau ymgeisio am grant ar gyfer cynnal gweithgareddau priodol, cyfrannu at gostau craidd a chyflogau, yn ogystal â chostau eraill sy'n ymwneud â rhedeg y mudiad.

Os nad yw hyrwyddo a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn rhan annatod a chanolog o'r cyfansoddiad, mae'n bosibl y bydd mudiadau'n dal i fod yn gymwys i ymgeisio os mai amcan y rhaglen yw cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru.

Gallai hynny gynnwys rhaglenni sydd, ymysg pethau eraill:

- yn creu cyfleoedd newydd i ddefnyddio'r iaith;
- yn darparu gwybodaeth i bobl am y cyfleoedd sydd ar gael i ddefnyddio'r iaith;
- yn hybu ac yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg;
- yn diogelu ac yn datblygu gweithgareddau cyrff a mudiadau a sefydlwyd i hyrwyddo'r Gymraeg;

- yn cynhyrchu adnoddau i hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

Mae grantiau ar gael hefyd ar gyfer cynhyrchu deunydd dwyieithog (e.e. taflenni ac arwyddion) drwy'r Cynllun Grant Busnes.

Manylion cysylltu:
Tîm Grantiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg,
Siambrau'r Farchnad,
5 - 7 Heol Eglwys Fair,
Caerdydd, CF10 2AT
Ffôn: 029 2087 8000
www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Medrwn Môn
Uned 5, Parc Ddiwydiannol Bryn Cefni, Llangefni, Sir Ynys Môn, LL77 7XA
Elusen Gofrestredig *1088828*

Ffôn: 01248 724944 post@medrwnmon.org
Ffacs: 01248 750149 www.medrwnmon.org

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:14/07/2010

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru WCVA Wales Council for Voluntary Action
Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk